

GRŴP ARBENIGOL AR ANGHENION CYMUNED Y LLUOEDD ARFOG YNG NGHYMRU

COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 5 GORFFENNAF 2017

Aelodau

Carl Sargeant AC	Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Reg Kilpatrick Brigadydd Alan Richmond	Llywodraeth Cymru – Llywodraeth Leol Brigâd Milwyr Traed 160 a'r Pencadlys yng Nghymru
Cyrnol Lance Patterson	Brigâd Milwyr Traed 160 a'r Pencadlys yng Nghymru
Comodor yr Awyrlu Adrian Williams Arweinydd Sgwadron Stuart Cairns Comander Al Gibson Annabel Ingram Jen Brooksbank	Yr Awyrlu Brenhinol Yr Awyrlu Brenhinol Y Llynges Frenhinol Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin Ffederasiwn Teuluoedd yr Awyrlu Brenhinol
Jane Williams Lisa Gostling Ant Metcalfe Seb Hargeaves	Ffederasiwn Teuluoedd y Llynges HIVE Y Lleng Brydeinig Frenhinol Cymdeithas Cynorthwyo Milwyr, Morwyr, Awyrenwyr a'u Teuluoedd (SSAFA)
Cyrnol Nick Beard	Cymdeithas Lluoedd wrth Gefn a Chadetiaid (RFCA)
Rachel Morgan James Greenrod Neil Kitchiner Ray Lock Meri Mayhew Kevin Morgan Leeanne Plechowicz	CLILC Tîm Cyfamod y Weinyddiaeth Amddiffyn Cyn-filwyr GIG Cymru Forces in Mind Trust Forces in Mind Trust Yr Adran Gwaith a Phensiynau Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yng Nghymru
Jan Jones	Llywodraeth Cymru – Diogelwch Cymunedol
Matt Downton Cerys Gage	Llywodraeth Cymru – Iechyd Meddwl Llywodraeth Cymru – Diogelwch Cymunedol

Ymddiheuriadau

Peter Evans Lefftenant-Cyrnol Stephen Hughes	Y Lleng Brydeinig Frenhinol Cymdeithas Lluoedd wrth Gefn a Chadetiaid (RFCA)
Mike Bailey Naomi Alleyne Dawn North Ian Caws	Gwasanaeth Lles Cyn-filwyr CLILC HIVE COBSEO

Huw Thomas
Peter Higson
Ian Barrow

Bon Westcott

Martin Swain

Jason Pollard

Yr Adran Gwaith a Phensiynau
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yng
Nghymru

Llywodraeth Cymru – Diogelwch
Cymunedol

Llywodraeth Cymru – Diogelwch
Cymunedol

Llywodraeth Cymru – Iechyd Meddwl

EITEM 1 – CROESO A CHYFLWYNIADAU

- 1.1 Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet yr aelodau i bedwerydd cyfarfod ar ddeg y Grŵp Arbenigol.
- 1.2 Roedd Ysgrifennydd y Cabinet wrth ei fodd â'r cyhoeddiad diweddar mai Conwy fydd yn cynnal Diwrnod Cenedlaethol y Lluoedd Arfog yn 2018. Gan ddiolch i bawb a fu'n rhan o'r cynnig llwyddiannus gofynnodd am ddiweddariad ar y cynlluniau ar gyfer digwyddiad 2018 erbyn y cyfarfod nesaf.

Cam i'w gymryd:

- **Ystyried paratodau at Ddiwrnod Cenedlaethol y Lluoedd Arfog 2018 yn y cyfarfod nesaf.**

EITEM 2 – COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF AR 26 IONAWR 2017

- 2.1 Gwahoddodd Ysgrifennydd y Cabinet yr aelodau i gytuno bod y cofnodion yn gywir. Gofynnodd y Cynol Lance Patterson am ddiwygio paragraff 5.3 i CDT (prawf cyffuriau gorfodol).

Cam i'w gymryd:

- **Newid paragraff 5.3 y cofnodion o dransfferin diffyg carbohydrad i brawf cyffuriau gorfodol.**

EITEM 3 – ADRODDIAD CYNNYDD AR Y CAMAU A GYMERWYD YN DILYN CYFARFODYDD BLAENOROL

- 3.1 Dywedodd Jan Jones fod diweddariad ar gynnydd ar y camau a gymerwyd ar yr holl faterion a gododd yn y cyfarfod diwethaf wedi'i ddarparu yn y log camau gweithredu, a anfonwyd at yr holl aelodau. Gwahoddodd Jan Gomodor yr

Awyrly, Adrian Williams, i roi diweddariad ar y paratoadau ar gyfer Dathliad Canmlwyddiant yr Awyrly yn 2018.

- 3.2 Dywedodd Comodor yr Awyrly y byddai nifer o ddigwyddiadau cyhoeddus yn cael eu cynnal ledled y DU i ddathlu'r canmlwyddiant, yn cynnwys rhaglen o ddigwyddiadau ym mhob cwr o Gymru. Bydd rhaglen 100 yr Awyrly ar gyfer Cymru'n defnyddio digwyddiadau cymunedol cyfredol i fanteisio ar gyfleoedd ac i helpu gydag adnoddau. Amlinellodd amrywiaeth o ddigwyddiadau oedd yn rhan o raglen Cymru, fel y digwyddiad yn amgueddfa David Lloyd George yn Llanystumdwy, i gydnabod rôl Lloyd George fel Prif Weinidog yn y penderfyniad i greu Awyrly annibynnol cyntaf y byd, arddangosiad o awyrennau hanesyddol a chyfoes o flaen Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Neuadd y Ddinas Caerdydd ac amryw o arddangosiadau awyr a daear yn Sioe Awyr Cymru, Abertawe yn 2018. Nodwyd hefyd, gan mai Conwy fyddai cartref Diwrnod Cenedlaethol y Lluoedd Arfog yn 2018 y byddai cyfle i'r tri gwasanaeth gydweithio a hyrwyddo eu meysydd.
- 3.3 Elfen ychwanegol yn ystod 2018 fydd cyflwyno rhaglen STEM yr Awyrly ledled Cymru. Bydd y rhaglen, a fydd yn cael ei lansio ym mis Ionawr 2018 gyda chydweithrediad swyddogion addysg Llywodraeth Cymru, yn cynnwys cefnogaeth gan sefydliadau allweddol fel Rolls Royce ac Airbus.
- 3.4 Gan ddiolch i Gomodor yr Awyrly am ei ddiweddariad nododd Ysgrifennydd y Cabinet bwysigrwydd dull cydgysylltiedig a gofynnodd am sefydlu gweithgor Canmlwyddiant yr Awyrly.
- 3.5 Wrth gyfeirio at y cyfarwyddyd hwyr a dderbyniwyd yn y digwyddiad i gofio Canmlwyddiant Brwydr y Somme ategodd y Cynol Patterson pa mor bwysig yw cael dull cydweithredol yn gynnar yn y broses.
- 3.6 Rhoddodd Rachel Morgan ddiweddariad ar y gwaith sydd ar droed i adolygu rôl Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog. Eglurodd Rachel fod is-grŵp wedi'i sefydlu a oedd yn cynnwys swyddogion arweiniol y Lluoedd Arfog mewn Awdurdodau Lleol ac y byddai'r disgrifiad rôl enghreifftiol yn cael ei adolygu gan yr is-grŵp.
- 3.7 Gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet a ddylai aelodau'r Grŵp Arbenigol adolygu rôl Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog gyda'i gilydd. Dywedodd Jan y byddai hyn yn cael ei wneud ar ôl toriad yr haf, gyda'r holl Hyrwyddwyr i gael eu gwahodd i gyfarfod gydag Ysgrifennydd y Cabinet i drafod eu rôl a chefnogaeth Llywodraeth Cymru. Awgrymodd Leeanne Plechowicz y dylid cynnwys Hyrwyddwyr Cyfiawnder Troseddol y Lluoedd Arfog hefyd.
- 3.8 Dywedodd Ant Metcalfe fod yna gyfle i sicrhau dilyniant ar draws pob Awdurdod Lleol drwy swyddi Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog.

Cam i'w gymryd:

- **Sefydlu Gweithgor Canmlwyddiant yr Awyrly Brenhinol.**

EITEM 4 – DIWEDDARIAD AR STOMP

- 4.1 Rhoddodd Leeanne Plechowicz drosolwg o fodel SToMP, dull system gyfan o gefnogi cyn-weithwyr y Lluoedd Arfog sy'n dod i gysylltiad â'r System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru. Mae cyllid cyfamod gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, ac adnoddau gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EM yng Nghymru, wedi galluogi i'r prosiect hwn gael ei gyflwyno. Drwy ddefnyddio dull cydweithio amlasiantaethol strategol, nod y prosiect yw gwella'r broses o adnabod a chyfeirio staff y Lluoedd Arfog at wasanaethau lluoedd arfog arbenigol ym mhob cam o'r system cyfiawnder troseddol. Nodwyd bod arferion cofnodi wedi gwella ers mis Ionawr 2015, gyda mwy na dwbl y nifer o gyn-weithwyr y Lluoedd Arfog wedi'u nodi ar systemau Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM.
- 4.2 Eglurodd Leeanne fod Grŵp Llywio wedi'i sefydlu o dan gadeiryddiaeth rheolwr prosiect SToMP. Un darn o waith sy'n cael ei ddatblygu gan reolwr y prosiect yw comisiynu ymchwil i'r rhwystrau i hunanddatgan gan gyn-weithwyr y Lluoedd Arfog mewn lleoliad cyfiawnder troseddol. Mae'n gweithio'n agos hefyd â Barnados Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Hyb i fynd i'r afael ag effaith negyddol profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) i sicrhau bod ymchwil a gynhelir i'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan brofiadau niweidio yn ystod plentyndod yn cynnwys cohort o gyn-weithwyr y Lluoedd Arfog neu fod ymchwil ar wahân yn cael ei gomisiynu. Mae rheolwr y prosiect yn hwyluso trafodaethau hefyd rhwng y pedwar heddlu yng Nghymru ar wella'r gwaith o adnabod a datblygu proses atgyfeirio a/neu ddargyfeirio gyson ledled Cymru. Mae hefyd yn gweithio gyda Phrif Glerc yr Ynadon i ddatblygu pecyn briffio i ddedfrydwyr ac wedi hwyluso hyfforddiant i dimau llysoedd prawf i gynyddu ymwybyddiaeth o gyn-weithwyr y Lluoedd Arfog.
- 4.3 Mae Llwybr Carcharorion SToMP yn cael ei ddatblygu i sicrhau proses asesu ac atgyfeirio gyson i wasanaethau cymorth arbenigol. Fel rhan o'r Llwybr mae dau Swyddog Cyswllt Carchardai wedi'u penodi i gefnogi staff carchardai a Rheolwyr Troseddol sy'n gweithio yng ngharchardai'r de, yn cynnwys yn yr Uned Endeavour. Mae'r Swyddogion Cyswllt yn gwneud gwaith cwmpasu ar arferion da cyfredol, ac yn gwella ac addasu prosesau presennol i sicrhau cysondeb yn y gwasanaeth i unrhyw gyn-weithwyr y Lluoedd Arfog sy'n gadael y ddalfa. Cadarnhaodd Leeanne fod model cydweithio cadarn ar waith yng Ngharchar Caerdydd. Cynhelir boreau coffi rheolaidd gyda'r carcharorion a gwasanaethau arbenigol, yna trafodaethau rhwng gwasanaethau arbenigol a staff y carchar am achosion penodol sydd ar fin cael eu rhyddhau i annog gwaith partneriaeth ac i osgoi dyblygu gwaith.
- 4.4 O ran yr Uned Endeavour, mae Leeanne yn cwblhau gwaith ymchwil ei hun i brofiad ailsefydlu cyn-weithwyr y Lluoedd Arfog sydd wedi'u rhyddhau o'r Uned ers iddi agor yn 2015. Mae'n edrych a yw model yr Uned yn diwallu eu hanghenion pan fyddant yn y ddalfa ac wrth baratoi am ailsefydlu a bydd yn cyhoeddi adroddiad ym mis Ionawr. Cytunodd Leeanne i gyflwyno ei chanfyddiadau yn y cyfarfod nesaf.
- 4.5 Mae holl staff carchar Cymuned Shaun Stocker yng Ngharchar Berwyn, (sy'n seiliedig ar fodel Uned Endeavour) wedi derbyn hyfforddiant ar anghenion cyn-

weithwyr y Lluoedd Arfog a drefnwyd gan SToMP a'i ddarparu gan Brifysgol Efrog a Nick Wood. Mae SToMP yn gweithio'n agos â Charchar Berwyn i gefnogi eu gwaith o ddatblygu llwybrau atgyfeirio rhwng carchardai a'u Cymuned ac o'r uned i elusennau arbenigol.

- 4.6 Eglurodd Leeanne fod SToMP wedi gwneud cais am Grant Cyfamod bychan er mwyn cynnal cyfres o Ddyddiau Cymunedol mewn chwe charchar yng Nghymru i integreiddio cymunedau, busnesau ac elusennau arbenigol yn well gyda chyn-weithwyr y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd.
- 4.7 Dywedodd Leeanne fod adnodd ychwanegol wedi'i sicrhau i ariannu Llwybr Trosglwyddo ar gyfer cyn-weithwyr y Lluoedd Arfog sy'n cael eu rhyddhau o garchar milwrol Colchester ac yn ailsefydlu yng Nghymru. Bydd y gwaith yn dechrau ym mis Gorffennaf.
- 4.8 Dywedodd y Cyrnol Patterson fod cyn-weithwyr y Lluoedd Arfog yng Ngharchar y Parc yn fwy parod i fanteisio ar gyfleoedd hunanddatblygu a'u bod yn llai tebygol o aildroseddu ar ôl cael eu rhyddhau. Mynegwyd pryder am y penderfyniad i symud cyn-weithwyr y Lluoedd Arfog yng Ngharchar Berwyn i adain gyffredinol i gefnogi'r broses bontio yn ôl i'r gymuned.
- 4.9 Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet bwysigrwydd y gwaith ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod gan nodi nad yw'n hysbys eto a yw hyn yn gysylltiedig â'r gwasanaeth neu'n ganlyniad i brofiad niweidiol blaenorol. Anogodd aelodau i weithio gyda'r Hyb Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod i nodi problemau cyn-gwasanaeth. Byddai'r canfyddiadau'n cael sylw maes o law.
- 4.10 Trafododd y grŵp y cysylltiadau rhwng trais domestig a theulu'n chwalu lle mae gan briod a phlant 90 diwrnod ar ôl y chwalfa i ddod o hyd i lety arall. Cytunodd Cyrnol Patterson i ddarparu rhagor o wybodaeth am bolisi'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Siaradodd Jane Williams am bolisi'r SFA (Llety Teuluoedd y Lluoedd Arfog) (JSP464) sy'n rhoi manylion am y rheoliadau ar gyfer y rhai sy'n byw mewn SFA os yw teulu'n chwalu a'r rhai sydd angen symud ar ôl cwblhau gwasanaeth gyda'r Lluoedd Arfog. Eglurodd Jane y gellid gofyn am gymeradwyaeth y Comander pan fo teulu'n chwalu ar gyfer y teuluoedd hynny a gaiff eu hystyried yn agored i niwed er mwyn iddynt symud i lety unigol yn ystod y cam cymodi. Mae gan y teulu 93 diwrnod i gymodi gwahaniaethau, a byddai angen chwilio am lety arall wedi hynny. Gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet am ragor o fanylion am y polisi a dywedodd y dylid rhoi ystyriaeth i lwybr cymorth cyfan i atal digartrefedd.

Camau i'w cymryd:

- **Leeanne Plechowicz i gyflwyno canfyddiadau yn y cyfarfod nesaf ar yr ymchwil sydd ar droed i fodel Uned Endeavour a phrofiad cyn-weithwyr y Lluoedd Arfog sydd wedi'u rhyddhau o'r Uned**
- **Cyrnol Patterson a Jane Williams i ddarparu rhagor o wybodaeth am bolisi'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar deuluoedd yn chwalu a llety'r Lluoedd Arfog.**

EITEM 5 – FORCES IN MIND TRUST

- 5.1 Roedd Ray Lock a Meri Mayhew yn bresennol yn y cyfarfod ar ran Forces in Mind Trust (FIMT). Eglurodd Ray fod FIMT wedi'i sefydlu yn 2012 yn dilyn gwaddol 20 mlynedd o £35 miliwn o Gronfa'r Loteri Fawr a'i nod, drwy ddyfarniadau grantiau, yw gwella'r broses bontio i weithwyr y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd.
- 5.2 Cadarnhaodd Ray fod casglu tystiolaeth am faterion trosglwyddo yn gallu bod yn her a nododd nifer o brosiectau FIMT a ariennir gan grantiau yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys prosiect i ymchwilio i broses bontio cyn-filwyr i'r gymuned a gynhaliwyd gan Brifysgol Glyndŵr. Ers sefydlu FIMT mae 80 o brosiectau wedi'u hariannu, sy'n werth £12 miliwn i gyd.
- 5.3 Soniodd Meri am amryw o adroddiadau FIMT. Mae ail fersiwn o'r adroddiad 'Our Community - Our Covenant' wedi'i gyhoeddi erbyn hyn ac mae'n rhoi cyfle i nodi bylchau a phrofi'r adnodd hunanasesu. Gwnaed gwaith ar fapio pontio a oedd yn dangos yn glir y sgiliau trosglwyddadwy y gall gweithwyr y Lluoedd Arfog eu cynnig i'r gweithle. Ond mae angen rhagor o waith ar y rhai sy'n gadael y Lluoedd Arfog yn gynnar. Canmolodd Meri adroddiad diweddar, Call to Mind, gan nodi fod crynodeb y DU i'w gyhoeddi cyn bo hir. Mae adroddiad yn proffilio darpariaeth gwasanaethau i Gyn-filwyr y Lluoedd Arfog o dan oruchwyliaeth y Gwasanaethau Prawf wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar ac yn cynnwys cysylltiadau clir â Chymru. Mae astudiaeth yn cael ei chynnal yng Ngholeg Kings ar y rhwystrau sy'n gysylltiedig â thrais domestig a chamdriniaeth. Cadarnhaodd Meri fod cyllid wedi'i ddarparu ar gyfer swyddi i gefnogi pontio yn ffederasiynau teuluoedd y tri gwasanaeth.
- 5.4 Cwestiynodd Jane ddulliau astudiaeth Kings ac a oedd yn cwmpasu camdriniaeth feddyliol neu gorfforol. Cadarnhaodd Meri fod yr astudiaeth yn cwmpasu'r ddau.
- 5.5 Croesawodd y Brigadydd Richmond waith y Bartneriaeth Pontio Gyrfa ond dywedodd nad oedd y rhai sy'n gadael y Lluoedd Arfog yn gynnar yn derbyn manteision llawn y pecyn cymorth. Dywedodd Ray y byddai'n fuddiol gwneud rhagor o waith i edrych ar gyn-weithwyr y Lluoedd Arfog a arferai fod yn y systemau gofal ond sydd wedi gweddnewid eu bywydau. Dywedodd Jane fod gan Ffederasiwn Teuluoedd y Llynges Ganllawiau Pontio i'r rhai sy'n gadael y gwasanaeth. Byddai dolen i'r canllaw yn cael ei rannu â'r grŵp.
- 5.6 Gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet am gynnal dau ddarn o waith cydweithredol, un yn ystyried profiadau niweidiol yn ystod plentyndod y rhai sy'n ymuno â'r Lluoedd Arfog, a'r ail yn ystyried profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a'r rhai sy'n gadael y Lluoedd Arfog yn gynnar. Dywedodd Jan er bod yna gysylltiadau rhwng hyn byddai'n fuddiol gwneud gwaith ymchwil i gymharu a chyferbynnu'r ddau.

- 5.7 Holodd Reg Kilpatrick a ddylid gwneud rhagor o waith i wella recriwtio i'r Lluoedd Arfog, gan ddarparu mwy o gymorth i'r rhai y nodwyd eu bod wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet, er bod llawer o weithwyr y Lluoedd Arfog yn dioddef gyda'r profiadau hyn roeddynt yn fwy tebygol o gael eu nodi ar ôl pontio.
- 5.8 Cyfeiriodd Ant Metcalfe at becyn cymorth Busnes yn y Gymuned a'r sgiliau y gall cyn-weithwyr y Lluoedd Arfog eu cyfrannu at y gweithle. Er bod gan y Fyddin ddyletswydd gofal i uwchsgilio'r rhai mae'n eu recriwtio ac mai'r Fyddin sy'n darparu'r nifer mwyaf o brentisiaethau o'r tri gwasanaeth, nid yw'r rhai sy'n gadael yn gynnar yn manteisio ar y cyfleoedd a gynigir iddynt bob amser. Dywedodd y Brigadydd Richmond y dylid defnyddio mwy ar y Cymdeithasau Catrodol i ganfod aelodau o'r Lluoedd Arfog a allai fod angen cymorth ychwanegol.
- 5.9 Soniodd Dr Neil Kitchiner am y therapi 3MDR a ddefnyddir i drin y rhai sy'n dioddef o anhwylder straen wedi trawma. Mae'r therapi yn ei ddyddiau cynnar ar hyn o bryd a chytunodd Neil i gyflwyno adroddiad am unrhyw ganlyniadau ymhen 18 mis.

Camau i'w cymryd:

- **Rhannu Canllawiau Trosglwyddo Ffederasiwn Teuluoedd y Llynges gyda'r grŵp.**
- **Cyflawni dau ddarn o waith cydweithredol**
 1. **ystyried profiadau niweidiol yn ystod plentyndod y rhai sy'n ymuno â'r Lluoedd Arfog**
 2. **ystyried profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a'r rhai sy'n gadael yn gynnar.**

EITEM 6 – UNRHYW FATER ARALL

- 6.1 Roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn falch o glywed bod caniatâd wedi'i roi'n ddiweddar i adeiladu Carchar Cumbria a gwahoddodd y Cyrnol Nick Beard i roi diweddariad. Cadarnhaodd y Cyrnol Beard fod cyfleuster newydd y llynges yn mynd trwy broses dendro'r OJEC (Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd) ac y dylai ddod i ben ddiwedd 2018 er mwyn agor yn ffurfiol yn 2019.
- 6.2 Rhoddodd y Brigadydd Richmond ddiweddariad gan Frigâd Milwyr Traed 160 a'r Pencadlys yng Nghymru. Yng Nghymru, mae'r safleoedd a gaiff eu heffeithio gan Army 2020 Refine a'r Adolygiad o Ystadau Amddiffyn yn cynnwys cau Canolfan Milwyr wrth Gefn Prestatyn a symud Bataliwn REME 101 i Keynsham. Nodwyd fod Brigâd Milwyr Traed 160 yn awyddus i wella'r cyfleusterau sydd ar gael yng Ngwersyll Cinmel, Bodolwyddan.
- 6.3 Ar hyn o bryd mae yna £25,000 o arian wedi'i gario drosodd o'r cyllid a ddarparodd Llywodraeth Cymru tuag at Lwybr Cyflogadwyedd y Lluoedd

Arfog. Cafodd ei lansio yn 2015 ac mae 157 o ymgeiswyr wedi mynychu'r cwrs gyda 51 wedi ymuno â'r Fyddin Barhaol a 33 wedi ymuno â'r Milwyr wrth Gefn.

- 6.4 Cynhelir Gwobrau'r Cynllun Cydnabod Cyflogwyr a Lluoedd Arfog Cymru ar 30 Tachwedd. Gofynnodd y Brigadydd Richmond i'r grŵp ystyried enwebu unrhyw un sy'n haeddu gwobr.
- 6.5 Mynegwyd pryderon am ddyfodol Cronfa Gymorth Addysg y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae'r Gronfa'n darparu cyllid sylweddol i ysgolion i gefnogi plant y Lluoedd Arfog, yn enwedig o ystyried nad yw Premiwm Disgyblion y Lluoedd Arfog ar gael yng Nghymru. Mae llawer o waith da yn cael ei wneud yn ysgolion Cymru o ganlyniad i'r cyllid; tynnwyd sylw at hyn yng nghynhadledd Plant y Lluoedd Arfog mewn Addysg a gynhaliwyd yn ddiweddar. Cadarnhaodd James Greenrod bod trafodaethau'n parhau ynghylch y rhai sy'n gadael yn gynnar ac y byddai llai o arian ar gael yn y dyfodol pe bai'r gronfa yn parhau. Efallai y dylid ystyried blaenoriaethu rhywfaint o'r gronfa Gyfamod os nad yw'n parhau. Dywedodd James y byddai cael metrig yn syniad da yng Nghymru i nodi bod diffyg Premiwm Disgyblion y Lluoedd Arfog yn gosod disgyblion o dan anfantais. Cadarnhaodd Jan bod trafodaethau ar y gweill gyda swyddogion addysg i ystyried y posibilrwydd o gael metrig o'r fath.
- 6.6 Dywedodd Ant Metcalfe wrth y grŵp fod y Lleng Brydeinig Frenhinol yn gweithio i gynyddu nifer y Nyrsys Admiral yng Nghymru, gan helpu pobl â dementia a'u teuluoedd. Mae'r ymgyrch Count Them In yn parhau i fod yn un o brif flaenoriaethau'r Lleng Brydeinig ar gyfer 2017. Tynnwyd sylw at gyfle ymchwil gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, sy'n canolbwyntio ar weithwyr neu gyn-weithwyr y Lluoedd Arfog. Byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei dosbarthu i'r grŵp.
- 6.7 Nododd Jane y newidiadau sy'n cael eu gwneud i'r cwricwlwm addysg gan nodi fod teuluoedd y Lluoedd Arfog yn dechrau gofyn cwestiynau am sut y bydd y cwricwlwm newydd yn effeithio arnyn nhw. Byddai ymgysylltu pellach yn digwydd yn yr hydref. Cytunodd Jane i gyflwyno unrhyw sylwadau yn y cyfarfod nesaf.
- 6.8 Nododd Ysgrifennydd y Cabinet nad oedd Peter Higson yn gallu dod i'r cyfarfod a gofynnodd am ohirio'r mater ar ddeintyddiaeth a'i drafod yn y cyfarfod nesaf.

Camau i'w cymryd:

- **Dosbarthu gwybodaeth am gyfle ymchwil y Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n canolbwyntio ar weithwyr neu gyn-weithwyr y Lluoedd Arfog i'r grŵp.**
- **Gohirio materion deintyddiaeth a'u trafod yn y cyfarfod nesaf.**

EITEM 7 – DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

7.1 Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet i'r aelodau am eu cyfraniadau pwysig. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 24 Ionawr 2018.